

Dywed Siencyn (2010) fod syniad o blentyndod yn wahanol dibynnu ar le, amser, a diwylliant, gan fod gwahanol ardaloedd yn ystyried bod plentyndod yn unigryw i bawb, a bod cysyniad o blentyndod wedi newid dros y blynyddoedd. Mae Penn (2008) yn cytuno gan ddweud fod pob plentyndod yn amrywio oherwydd dosbarth, hil, rhyw, daearyddiaeth, ac amser. Dywed fod y plentyndod mae pobl yn cael, yn cael eu heffeithio gan yr elfennau yma ac yn dangos fod plentyndod pawb yn wahanol. Mae Siencyn (2010) yn egluro fod syniad Penn (2008) yn cael eu galw yn 'multiple childhoods'. Awgryma Siencyn (2010) fod yna 'multiple childhoods' pobman, gan fod pob plentyndod yn amrywio gyda rhyw, diwylliant, ar oedolion sydd yn rhoi cymorth yn ystod eu plentyndod, a fwy o resymau.

Ond mae Walkerdine (2004) yn dweud fod yn cyffredinol mae ymchwil amdano blentyndod gyda barn orllewinol ar bob plentyn yn y byd, a fydd plentyndod yn cael eu categorioedd mewn i ddull gorllewinol. Mae MacNaughton (2003) yn cytuno gan ddweud fod plentyndod yn cael dangos i ddatblygiad yr un peth difater o ddosbarth, rhyw, hil, tan ymchwil ddiweddar. Dywed MacNaughton (2003) fod ymchwil diweddar am blentyndod yn dechrau ystyried y ffactorau yma, all effeithio ar blentyndod yn gwahanol ardaloedd ac yn gwahanol deuluoedd. Mae Penn (2005) yn ddweud fod ymchwil tan nawr wedi dangos plentyndod gogledd America ac Ewrop, ond mae 80% o blant o wahanol ardaloedd y byd yn amrywio gyda chyfoeth, iechyd, a diwylliant sydd ddim yn cael eu hystyried. Mae Dahlberg et al (2007) yn awgrymu fod wrth edrych ar blentyndod yn wledydd eraill fydd angen i'r ymchwilydd ystyried plentyndod yn ddiwylliant y wlad neu ardal. Yn yr aseiniad yma fyddwn yn edrych ar ddwy wlad ac ystyried y plentyndod mae plant yn cael, fel mae ethnig, iaith a hawliau yn cael effaith ar blentyndod yn y ddwy wlad wahanol. Hefyd fyddwn yn edrych ar addysg, hawliau, a gofal iechyd ar gyfer plant yn y ddwy wlad, a chymharu sut mae'r ddwy wlad yma yn rhoi plentyndod gwahanol i blant a sut mae hwn yn effeithio datblygiad plant.

Y ddwy wlad fyddwn yn edrych arno yw Lloegr ac India, a chymharu sut mae'r ddwy wlad yma yn rhoi profiadau gwahanol o blentyndod.

Yn ôl syniad Maslow o anghenion hierarchaeth, mae angen i blant cael rhai pethau cyn i fod gallu datblygu yn gorfforol, emosiynol a meddyliol. Dywed Maslow fod angen bwyd, cysgod, iechyd da, a fwy er mwyn datblygu a gwella sgiliau (Siencyn, 2010). Mae ymchwil gan Borooah (2009) wedi edrych ar 4000 o blant yn India rhwng yr oedran un a dwy flwydd oed, oedd yn byw yn ardal wledig. Roedd yr ymchwil yn edrych ar esgeulustod y plant o'r teulu ar ran iechyd. Dangoswyd yr ymchwil fod merched wedi cael fwy o esgeulustod nag bechgyn, gan eu bod yn cael llai o fwyd maeth, a llai tebygol o gael brechedig. Ond roedd yr

ymchwil hefyd wedi dangos achos arall am esgeulustod plant ifanc yn India. Dywed Borooah (2009) yn yr ymchwil fod nad oedd y rhieni wedi cael addysg yna fydd y plant yn llai tebygol o gael anghenion hierarchaeth Maslow (bwyd, ac iechyd da). Y ffactorau oedd yn effeithio ar esgeulustod plant yn India oedd rhyw'r plentyn, byw yn ardal wledig, a os oedd y fam wedi cael addysg (Gibson, 2001). Mae rhain yn ddangos fod plant yn India ddim yn cyrraedd anghenion gwaelod Maslow, sydd yn golygu eu bod ddim gyda'r adnoddau i helpu nhw ddatblygu i'r gorau allwn (Siencyn, 2010).

Mae ymchwil gan The Children's Society (2017B), yn dangos Lloegr i fod yn lefel uwch nag India mewn anghenion hierarchaeth Maslow (Siencyn, 2010). Mae'r ymchwil gan The Children's Society (2017B) wedi edrych mewn i les plant dros Lloegr yn eu bywydau, a beth sydd yn cael effaith arno'r lles. Roedd yr ymchwil wedi cael eu gwneud yn 2017 trwy'r arolwg cartref ar blant rhwng 10 a 17 blwydd oed. Yn ôl The Children's Society (2017) mae plant yn Lloegr yn fwy anhapus gydag ysgol ac ymddangosiad nhw. Dywed fod technoleg yn effeithio lles plant, all arwain at les isel. Yn ôl The Children's Society (2017B) fod defnyddio technoleg am fwy nag pedwar awr y dydd yn gallu effeithio lles i wneud gyda theulu, ymddangosiad, ysgol, a gwaith ysgol. Mae Unicef (2007) yn cytuno gan ddangos yn ymchwil nhw am les plant yn wledydd cyfoethog. Roedd yr ymchwil wedi darganfod fod wrth edrych ar 21 gwlad roedd Prydain yn dod yn ddiwethaf. Roedd yr ymchwil wedi edrych ar les materol, lles addysgol, perthynas rhwng ffrindiau a theulu, lles goddrychol, iechyd a diogelwch, ac ymddygiad a risg. Mae Unicef (2007) wedi darganfod fod marchod gyda lles isel ar ran ymddangosiad, a theimladau at eu hunain. Dywed fod hwn yn arwain at fwy o broblem iechyd a lles gyda marchod oherwydd ymddangosiad.

Mae'r ymchwil gan The Children's Society (2017B), Unicef (2007), ac ymchwil gan Borooah (2009) wedi dangos fod plant yn India a phlant yn Lloegr gyda gwahanol faterion negyddol sydd yn effeithio ar les eu bywydau. Dywed Borooah (2009) fod plant sy'n byw yn wledydd tlawd gyda mwy o gyfradd o farwoldeb. Yn ôl Unicef (2007) mae gwlad dlawd yn golygu bod adnoddau nhw yn gyfyngedig i gymharu mwyafrif o wledydd. Mae fwy na chwarter o blant yn wledydd tlawd yn marw cyn un flwydd oed. Yn ôl Borooah (2009) os ydy'r plentyn sydd yn byw yng ngwlad dlawd ac yn fyw i fod yn fwy nag un, yna fyddwn yn byw bywyd gydag afiechydon, ac anghydraddoldebau fel rhyw a byw yn ardal wledig. Ond mae'r Children's Society (2017B) wedi dangos fod plant yn Lloegr yn gyda lles sydd yn gwaethygu oherwydd datblygiad o dechnoleg. Dangoswyd yn yr ymchwil fod technoleg yn cael effaith negyddol ar lawer o elfennau o fywydau plant, yn cynnwys gwaith ysgol a theulu.

Fel dangoswyd gan Borooah (2007) a Unicef (2007) mae merched yn India a Lloegr yn cael eu heffeithio yn fwy gyda lles nag bechgyn. Mae merched yn India yn llai tebygol o gael triniaeth am afiechydon (Borooah, 2007). Ond gyda merched Lloegr yr oeddwn yn cael fwy o effaith negyddol gyda thechnoleg ac ar ymddangosiad eu hunain, oedd yn cael effaith negyddol ar les eu bywydau. Mae'r ymchwiliadau yma yn dangos fod dal anghydraddoldeb rhyw yn llawer o wledydd, rhai sydd yn fwy amlwg fel India ble mae'r anghydraddoldeb yn cael effaith enfawr ar iechyd a lles y plentyn, a rhai sydd yn llai amlwg fel yn Lloegr ble mae'r anghydraddoldeb yn cael effaith ar les meddyliol y plentyn. Mae'r anghydraddoldebau yma, a'r pethau sydd yn effeithio plant yn India a Lloegr yn amrywio'r fath o blentyndod bydd y plant yn cael o ran iechyd a lles yn eu plentyndod. Fel dangoswyd Borooah (2007), mae plant yn India yn fwy tebygol o gael plentyndod llawn afiechydon yn dibynnu ar ble mae'r plentyn yn byw, pa ryw yw'r plentyn, ac os ydy'r rhieni wedi cael addysg. Mae'r Children's Society (2017) wedi dangos fod plentyndod plant yn Lloegr yn amrywio, dibynnu ar faint o dechnoleg yr ydym yn defnyddio.

Mae ymchwil gan Barnard a Turner (2011) yn dangos fod yna anghydraddoldeb ethnigrwydd yn Lloegr. Dywed fod y Bangladesh grŵp ethnig yn dioddef o dlodi o ran unrhyw grŵp lleiafrifol ethnig, a dim ond 25% o'r grŵp ethnig Bangladesh sydd yn ennill incwm yn dop hanner o Loegr. Mae hwn yn dangos fod mwyafrif o blant Bangladesh yn byw mewn tlodi oherwydd anghydraddoldeb ethnigrwydd. Ond yn yr ymchwil mae Barnard a Turner (2011) yn nodi fod y fath o deulu ddim wedi cael eu hystyried, fel teulu gyda mwy o blant, un rhiant, neu lawer o deulu henoed. Mae'r ffactorau yma hefyd yn mynd i gael effaith ar blentyndod plant Lloegr, ac yn creu plentyndod unigryw dibynnu ar anghydraddoldeb ethnig, a pa fath o deulu fydd gyda'r plentyn.

Dywed Borooah (2009) fod yna anghydraddoldeb ethnig yn digwydd yn India. Yn ymchwil Borooah (2009) dangoswyd fod plant yn llai tebygol o gael brechiad os ydyn yn grŵp ethnig penodol. Edrychodd Borooah (2009) ar y tebygrwydd o'r plentyn cael brechiad os byddwn yn deulu Dalit, Mwslim, neu Hindŵ. Roedd yr ymchwil wedi darganfod fod y plentyn chwe phwnt llai tebygol o gael brechiad os yw'r teulu yn Dalit a Mwslim, a deg pwnt llai tebygol os yw'r teulu yn Hindŵ. Roedd Borooah (2009) wedi dangos yn eu hymchwil fod plentyn yn cael anghydraddoldeb yn cael brechiad os yw'r plentyn o grŵp ethnig penodol, a merch neu fechgyn, rieni ddim wedi cael addysg, a ble yr oeddwn yn byw.

Mae ymchwil gan Barnard a Turner (2011), a Borooah (2009) yn dangos fod anghydraddoldeb ethnig yn digwydd mewn gwahanol wledydd. Mae hwn yn dangos fod grŵp ethnig y teulu yn mynd i gael effaith ar brofiad plentyndod pawb, oherwydd nad yw

pob grŵp yn cael eu trin yr un peth fel dangoswyd yn India gyda brechiad. Dangoswyd fod yr anghydraddoldebau yma yn cael effaith ar iechyd a lles plentyn, gan eu bod yn byw gydag afiechyd trwy blentyndod, neu fyw mewn tlodi.

Yn 2009 derbynwyd plant yn India yr hawl i addysg am ddim, ac roedd hwn yn mynd i helpu lleihau'r gyfradd marwoldeb plant India (Ministry of Law and Justice, 2009). Mae'r ddeddf wedi galluogi plant rhwng yr oedran chwech i undeg-pedwar i gael addysg am ddim yn eu tref leol, ac mae'r llywodraeth yn gallu trefnu addysg plentyndod cynnar rhwng yr oedran 3 i 6 cyn dechrau ysgol. Ond mae'r deddf yma ddim yn cynnwys y gwladwriaeth Jammu a Kashmir (Ministry of Law and Justice, 2009). Roedd Prydain wedi ymuno'r CCUHP yn 1990. Ac yn 1992 roedd India wedi ymuno i cael confensiwn y cenhedloedd unedig ar hawliau'r plentyn (CCUHP), fydd yn cynnig fwy o hawliau i helpu ddatblygu a amddiffyn (The Times of India, 2016). Mae'r CCUHP gyda 54 erthygl sydd yn tanlinellu sut i amddiffyn plant, ac helpu ddatblygu y gorau allwn (Unicef, 2018). Mae erthygl 31 yn rhoi yr hawl i chwarae, erthygl 28 yr hawl i addysg, erthygl 19 yr hawl i fod yn ddiogel rhag trais, ac erthygl 13 yr hawl i ryddfaint o fynegiad (Unicef, 2018). Dywed Pascal a Bertram (2009) fod erthygl 13 yn cael eu mapwysadu fwy yn ysgolion heddiw. Yn ôl Pascal a Bertram (2009) mae ysgolion datblygu dysgu wrth gael barn nhw ar beth yr ydym yn dysgu, ac fel dylai'r addysg cael eu gwneud. Ond mae'r ddeddf recordiad fideo 1984 yn lleihau'r ffordd all plant dangos eu syniadau, neu ddarganfod syniadau newydd gan fod cyfyngiad oedran ar rhai ffilmiau, neu gemau (Joint Committee on Human Rights, 2010).

Mae Sinclair (2004) yn ddweud fod cyfyngiadau ar hawliau plant. Dywed Sinclair (2004) fod erthygl 13 yn cael eu hannog yn ysgolion, ond fod o yn anodd i athrawon i weithredu, sydd yn arwain at athrawon neu weithwyr proffesiynol plentyndod cynnar i ddim gweithredu syniadau plant. Mae yna fod problemau gydag India am weithredu'r CCUHP mewn i'r wlad. Yn 2004, roedd y pwyllgor ar hawliau'r plentyn (2004) wedi darganfod eu bod yn galed i weithredu erthygl 32, gan fod erthygl 32 amdano blant yn gweithio yn lle cael addysg. Mae hwn yn dangos fod yn Lloegr ac India mae o'n anodd gweithredu pob erthygl o'r CCUHP er mwyn diogelu a helpu datblygu plant. Mae'r Hawliau yn cael effaith fawr ar brofiad plentyndod pobl, trwy gynnig fwy o gyfleoedd i ddatblygu a chael eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Fel mae Sinclair (2004), pwyllgor ar hawliau'r plant (2004), a'r ddeddf addysg India 2009 rhan 1, allwn weld fod y deddfau a'r CCUHP ddim yn cael eu gweithredu iawn neu yn gwahardd rhai ardaloedd. Allwn weld fod dwy wlad, Lloegr ac India yn gweithredu rhai o'r deddfau ac erthyglau'r CCUHP er mwyn gwella profiad plentyndod pobl, ond mae yna rhai cyfyngiadau fydd yn galed i weithio rownd i roi'r cyfle gorau i blant. Mae hwn

hefyd yn dangos fod plant yn India a phlant Lloegr yn cael profiadau gwahanol o blentyndod gan fod rhai deddfau neu erthyglau yn ddim yn cael eu gweithredu yn India ond yn cael eu gweithredu yn Lloegr.

Mae Lloegr wedi dod a rhaglennu er mwyn helpu ethnig sydd yn y wlad neu symud i'r wlad. Darganfodwyd yr Institute of Race Relations (2018) bod grwpiau Asiaidd yn wneud lan 6.8 y cant o boblogaeth Lloegr, 3.4 y cant yn grŵp du, 0.7 y cant yn Tsieineaidd, a 0.4 y cant yn Arabaidd. Mae hwn yn dangos fod yna llawer o ieithoedd yn cael eu siarad o fewn Lloegr, a bod llawer o'r grwpiau yma ddim yn gallu siarad yr iaith Saesneg. Mae Drummond (2014) wedi dangos y gwahanol fathau o ddulliau mae gweithwyr plentynod cynnar yn defnyddio i ddatblygu'r iaith Saesneg gyda phlant sydd angen datblygu'r iaith gan eu bod yn siarad iaith arall yn eu cartref. Awgryma Drummond (2014) i ddefnyddio dull gweledol sef lluniau i greu cysylltiad rhwng y llun a gair Saesneg. Dysgu trwy chwarae a chwarae rhan fydd yn datblygu sgiliau'r plentyn wrth iddynt hwy fwynhau. Ond mae Dorset Early Years Team (Dim Dyddiad) yn awgrymu trafod gyda'r rhieni yn gyntaf er mwyn do di deall y sefyllfa yn y cartref a'r lefel mae'r plentyn arno gyda'r iaith Saesneg. Awgryma trafod fel i yngani'r enw'r plentyn, trafod yr iaith mae'r plentyn yn siarad gyda'r rhieni, a dysgu rhai geiriau er mwyn helpu ddatblygu'r iaith Saesneg, y grefydd y teulu, a beth mae'r plentyn yn hoffi gwneud a ddim yn hoffi gwneud.

Mae India yn wlad sydd gyda llawer o dafodiaith o fewn y wlad sydd yn wneud o yn anodd datblygu pob iaith yn pob lleoliad, a chynnig cymorth ar gyfer teuluoedd sydd yn siarad rhai o'r ieithoedd. Mae India gyda 884 tafodiaith, ond ddim ond 16 iaith swyddogol. Mae'r rhain yn cynnwys Saesneg er mwyn datblygu gyda gwleidyddiaeth a chyfathrebu masnachol. Mae 30 y cant o'r wlad yn siarad yr iaith Hindŵ, ond Hindŵ yw'r iaith wladol. Mae'r ieithoedd arall yn cynnwys Bengali, Telugu, Marathi, Tamil, Urdu, Gajarati, Malayalam, Kannada, Oriya, Punjabi, Assamese, Kashmiri, Sindhi, a Sanskrit (NORRIC, 2006). Mae'r ieithoedd yma yn cael eu defnyddio yn gwahanol ysgolion dibynnu ar ba iaith sydd yn fwy blaenllaw yn yr ardal (Government of India, 2014). Mae'r addysg yn India yn dysgu plant Saesneg, Hindŵ, ac yr iaith fwyaf blaenllaw yn yr ardal, mae hwn galluogi'r amrywiaeth o ran ieithoedd y ddatblygu. Mae'r ddwy wlad, Lloegr ac India wedi dangos fel yr ydym yn annog y gwahanol ieithoedd sydd yn cael eu siarad yn y gwledydd. Mae hwn yn dangos fod y ddwy wlad yn annog profiadau gwahanol yn blentyndod gan fod cymaint o ieithoedd yn y gwledydd yma. Fydd hwn yn galluogi'r plant i ddatblygu eu diwylliant ac iaith o fewn Lloegr ac India, gan y bod y llywodraethau yma yn helpu datblygu'r rhain.

Mae plant yn byw mwyafrif o blentyndod yn ysgol. Yn ôl Long (2016) mae rhaid i ysgolion yn Lloegr bod ar agor 380 sesiwn y flwyddyn, sef 190 dydd. Fydd dewis gyda'r pennaeth ysgol ar ba mor hir mae'r ysgol ar agor yn y dydd, ond fydd angen cael caniatâd y llywodraeth cyn newid unrhyw amseroedd (Long, 2016). Mae llywodraeth India (2014) yn dangos fod y dafodiaith yn dewed pa mor hir fydd yr ysgolion yn cael eu cynnig, er enghraifft mae ysgolion Bihar ar agor rhwng Ebrill a Mawrth ond mae Tripura ar agor rhwng Ionawr a Rhagfyr. Mae addysg Lloegr wedi cael effaith fawr ar sut mae addysg yn India wedi newid. Dywed Jumar (2017) fod y system addysg Lloegr wedi cael eu mewnbynnu i India yn 1830 gan Lord Thomas Babington Macaulay. Dywed fod angen addysg newid i fod yn ddosbarth a gyda phynciau modern fel gwyddoniaeth a mathemateg. Ond mae addysg ddim yn beth fwyaf pwysig i'r llywodraeth gan fod 26 mas o 35 o tafodiaith India ddim yn rhoi addysg plentynod cynnar ar gyfer plant rhwng 3 a 6 blwydd oed (Government of India, 2014). Mae India newydd dechrau gweithredu 'National Curriculum Framework' mewn i'r wlad er mwyn ddatblygu'r addysg fydd plant yn cael (Papatheodorou a Moyles, 2012). Fydd yr cwricwlwm yma yn helpu datblygu plant India, gan fod ymchwil yn taliaith Uttar Pradesh yn dangos fod 41 y cant o blant ddim yn gallu darllen paragraff fyr, ac mae 56 y cant ddim yn gallu ysgrifennu (Banerjee, 2005).

Ond mae Penn (2015) yn dadlau fod yr addysg strwythurol ddim yn elwa pob plentyn, gan fod rhai yn byw gwledig a fydd o yn fwy pwysig dysgu i fyw yn yr ardaloedd yma. Gyda theuluoedd sy'n ffermio, fydd angen i bawb yn y teulu gwneud gwahanol weithgareddau pob dydd er mwyn cadw fferm i gael incwm. Ond mae Penn (2015) yn ddweud os fydd plant yn y teulu yn gadael y teulu i fynd i ysgol fydd yna weithgaredd fydd ddim yn cael eu gwneud, a fydd y teulu dechrau colli incwm. Mae Penn (2015) hefyd yn dadlau fod cwricwlwm modern yn gymhleth i blant India gan eu bod yn defnyddio adnoddau o wledydd eraill sydd yn wahanol i beth mae plant India yn gwybod. Mae Penn (2015) yn rhoi'r enghraifft fod os fydd lluniau o gegin o Loegr yn cael eu dangos i blant India fyddwn ddim yn gyfarwydd, gan fod cegin plant India yn edrych yn wahanol a fydd hwn yn wneud e yn anodd i'r plant ddysgu. Mae Support India Together (2005) yn cytuno gyda Penn (2015) fod y math o addysg sydd yn cael eu gweithredu mewn i India yn ddim yn helpu o ddatblygu'r plant. Yn ôl Support India Together (2005) mae'r addysg yn drwythedig, sef fod yr athrawon yn rhoi cwestiynau a bod barn a thrafodaeth gyda'r plant ddim yn digwydd. Mae hwn ddim yn cyrraedd CCUHP erthygl 13, gan fod llais a barn y plentyn ddim yn cael eu clywed (Unicef, 2018). Mae addysg yn Lloegr gyda llawer o gymorth ar gyfer yr athrawon a phlant, gan fod llawer o fframwaith, fel y Early Years Foundation Stage a Every Child Matters. Mae'r fframwaith yma yn cynnig

datblygiad holistaidd ar gyfer plant Lloegr, fydd yn annog dysgu trwy chwarae (Papatheodorou a Moyles, 2012).

I gloi, mae modd gweld y gwahaniaethau rhwng India a Lloegr ar brofiad plentyndod ond hefyd mae yna debygrwydd yn y ddwy. Mae'r ymchwiliadau yma yn dangos fod dal anghydraddoldeb rhyw yn llawer o wledydd gydag iechyd a lles plant. Mae'r ymchwil hefyd wedi dangos fod anghydraddoldeb ethnig yn digwydd yn ddwy wlad. Roeddwn allu gweld fod Lloegr ac India ddim yn gweithredu rhai deddfau ac erthyglau yn iawn neu yn gwahardd rhai ardaloedd. Allwn weld fod dwy wlad, Lloegr ac India yn gweithredu rhai o'r deddfau ac erthyglau'r CCUHP er mwyn gwella profiad plentyndod pobl, ond mae yna rhai cyfyngiadau fyddwn yn galed i weithio rownd i roi'r cyfle gorau i blant. Mae'r ddwy wlad, Lloegr ac India wedi dangos fel yr ydym yn annog y gwahanol ieithoedd sydd yn cael eu siarad yn y gwledydd. Mae hwn yn dangos fod y ddwy wlad yn annog profiadau gwahanol yn blentyndod gan fod cymaint o ieithoedd yn y gwledydd yma. Mae addysg plant India wedi cael eu dylanwadu gan addysg Lloegr, ond wrth yr ymchwil allwn weld fod y math yma o addysg ddim yn gweithio'n effeithiol am bob ardal. Ond mae addysg yn Lloegr wedi dangos cymorth ar gyfer y plant i ddatblygu gorau posib. Wrth weld y gwahanol ffactorau sydd yn newid o rhan ardal yn India a Lloegr, i pa iaith, neu grŵp ethnig yr ydym yn, allwn gweld fod profiad pawb o plentyndod yn mynd i fod yn gwahanol, ac fod 'multiple childhoods' ym mhob gwlad (Siencyn, 2010).

Cyfeirnod

Banerjee, A., Cole, S., Duflo, E. a Linden, L. (2005) 'Remedying Education: Evidence from two randomized experiments in India'

<http://services.iriskf.org/data/articles/Document1122006530.8452265.pdf> [Darllenwyd: 26/3/2018].

Barnard, H. a Turner, C. (2011). 'Poverty and ethnicity: A review of evidence'

<http://www.oneeastmidlands.org.uk/sites/default/files/library/poverty-ethnicity-evidence-summary.pdf> [Darllenwyd: 27/3/2018].

BBC News (2014) 'English Children 'less happy than those in developing countries''.

<http://www.bbc.co.uk/news/uk-28954242> [Darllenwyd: 18/3/2018].

Borooah, V. (2009) 'Gender Bias Among Children in India in their Diet and Immunisation Against Disease' https://mpra.ub.uni-muenchen.de/19590/1/MPRA_paper_19590.pdf [Darllenwyd: 20/3/2018].

Dorset Early Years Team (Dim Dyddiad) 'Children learning English as an additional language (EAL)' https://www.dorsetforyou.gov.uk/media/pdf/8/4/EAL_in_Early_Years.pdf [Darllenwyd: 24/3/2018].

Dr. Kumar, V.S. (2017) 'The Education system in India' <https://www.gnu.org/education/edu-system-india.en.html> [Darllenwyd: 20/3/2018].

Drummond, C. (2014) 'How can UK schools support young children learning English' <https://www.britishcouncil.org/voices-magazine/how-uk-schools-support-young-learners-english> [Darllenwyd: 24/3/2018].

Government of India (2014) 'Selected Information on School Education 2011-12'

http://mhrd.gov.in/sites/upload_files/mhrd/files/statistics/SISH201112.pdf [Darllenwyd: 24/3/2018].

Institute of Race Relations (2018) 'Ethnicity and Religion Statistics'

<http://www.irr.org.uk/research/statistics/ethnicity-and-religion/> [Darllenwyd: 25/3/2018].

Joint Committee on Human Rights. (2010) 'The United Nations Convention on the Rights of the Child: How legislation underpins implementation in England'

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/296368/uncrc_how_legislation_underpins_implementation_in_england_march_2010.pdf [Darllenwyd: 25/3/2018].

Kanyal, M. Cooper, L. (2010) 'Young children's perceptions of their school experience: a comparative study between England and India' Volume 2, 3605-3613 tt. [Ar-lein]
https://ac.els-cdn.com/S1877042810006002/1-s2.0-S1877042810006002-main.pdf?_tid=6b451337-e540-473b-b696-6c09ee3616f6&acdnat=1522839285_3a0dcb05b7646bcfb44c81cafc5e1c13 [Darllenwyd: 23/3/2018].

Long, Robert (2016) 'The School Day and Year (England)'
<https://www.google.com/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=11&ved=0ahUKEwiMiqyZ2aXaAhWjKsAKHctYATYQFghqMAo&url=http%3A%2F%2Fresearchbriefings.files.parliament.uk%2Fdocuments%2FSN07148%2FSN07148.pdf&usg=AOvVaw19jjJ6VJJw9N20h62Bb1ys> [Darllenwyd: 29/3/2018].

Ministry of Law and Justice (2009) 'The Right of Children to Free and Compulsory Education Act, 2009' http://mhrd.gov.in/sites/upload_files/mhrd/files/document-reports/RTEAct.pdf [Darllenwyd: 29/3/2018].

NORRIC (2006) 'Report on The System of Education in India'
<https://norric.org/files/education-systems/India-2006.pdf> [Darllenwyd: 25/3/2018].

Papatheodorou, T. Moyles, J. (2012) *Cross-Cultural Perspectives on Early Childhood*. London: SAGE Publications.

Pascal, C. and Bertram, T. (2009). Listening to young citizens: the struggle to make real a participatory paradigm in research with young children. *European Early Childhood Education Research Journal*, 17, 2, 249–262 tt.

Penn, H. (2005). *Unequal Childhoods : Young Children's Lives in Poor Countries*. Abingdon: Routledge.

Siecyn, S. (2010) Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer. Caerfyrddin: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Support India together (2005). 'New Curriculum Framework : A few chapters short'
<http://www.indiatogether.org/2005/dec/edu-ncf2005.htm> [Darllenwyd: 15/3/2018].

The Children's Society (2017A) 'Good Children Report 2017: Summary for Wales'
https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/the-good-childhood-report-2017_summary-for-wales.pdf [Darllenwyd: 18/3/2018].

The Children's Society (2017B) 'Good Childhood Report 2017'
https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/the-good-childhood-report-2017_full-report_0.pdf [Darllenwyd: 18/3/2018].

The Times of India. (2016) 'Isn't India a signatory to the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC)? Would this new bill contravene some of UNCRC's provisions?' <https://timesofindia.indiatimes.com/deep/how-a-horrific-rape-in-delhi-led-to-the-more-stringent-juvenile-justice-bill-2015/questions-and-answers/Isnt-India-a-signatory-to-the-United-Nations-Convention-on-the-Rights-of-the-Child-UNCRC-Would-this-new-bill-contravene-some-of-UNCRCs-provisions/articleshow/50448114.cms> [Darllenwyd: 23/3/2018].

UNESCO (2018) 'India', <http://uis.unesco.org/en/country/in?theme=education-and-literacy> [Darllenwyd: 25/3/2018].

Unicef (2007) 'Child poverty in perspective: An overview of child well-being in rich countries'
https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/147547/mod_resource/content/2/unicef%202007%20well%20being%20with%20comparison%20table%20of%20countries.pdf [Darllenwyd: 26/3/2018].

Unicef (2018) 'What is the UNCRC' <https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/> [Darllenwyd: 20/3/2018].

Vice (2017). 'How Terrorism Affects Children: And what you can do to help them through traumatic times' https://www.vice.com/en_uk/article/qvdq5v/how-terrorism-affects-children [Darllenwyd: 23/3/2018].

Viruru, R. (2001) *Early Childhood Education: Postcolonial Perspectives From India*. London: SAGE Publications.

Waller, T. (2014) 'Modern Childhood: Contemporary Theories and Children's Lives' in Waller, T. and Davies, G. (eds) *An Introduction to Early Childhood*. 3rd edition. London: Sage.

Woodhead, M. and Montgomery, H. (Eds) (2003) *Understanding childhood: an interdisciplinary approach*. Hoboken, NJ : John Wiley & Sons.

Wright, H.R. (2015) 'Introducing Childhood' in Wright, H.R. *The Child in Society*. London: SAGE. pp. 1-14.